Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth

21ain Medi gyda'r haul yn tywynnu'n braf cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth yng Nghapel Siloam. Beirniad llefaru eleni oedd Carwyn John. Mae Carwyn yn wreiddiol o Fethel ger Caernarfon ond bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio i'r BBC. Mae Carwyn yn enw cyfarwydd ym myd llefaru o ran cystadlu ac wedi beirniadu yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd. Mae e wedi ennill Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn ddwy waith yn y Genedlaethol. Ein beirniad cerdd oedd Gwyn Nicholas o Lanpumsaint. Mae'n hyfforddwr llais, cyfeilydd ac organydd ac ef yw arweinydd Côr Llanpumsiant a'r Cylch. Tudur Jones o Dywyn oedd yn cyfeilio a cafodd ei gadw'n brysur drwy gydol y dydd.

Llywydd y dydd oedd Meirionna Jones sydd bellach yn byw ar Ynys Môn ond sydd yn ymwelydd cyson â Chwmystwyth. Cafwyd araith hyfryd ganddi yn dwyn i gof treulio gwyliau gyda theulu yng Nghwmystwyth.

Lyn Ebenezer o Bontrhydfendigaid oedd yn beirniadu'r gwaith llenyddol ac roedd yn canmol y safon uchel yn yr adran honno. Derbyniwyd deuddeg ar hugain o gerddi ar y testun "Bro" a dywedodd nad oedd un gwael yn eu plith. Y bardd buddugol oedd Morgan Owen o Ferthyr Tudful yn wreiddiol ond sydd ar hyn o bryd yn byw yn Aberystwyth. Dywedodd Lyn Ebenezer ei fod wedi cyflawni cryn gamp gyda'i gerdd rydd am ei fro enedigol. Crëwyd y gadair allan o fetel gan fachgen ifanc lleol sef Dylan Lewis a hon oedd y gadair gyntaf i Morgan ei hennill.

Elen Lewis oedd yng ngofal seremoni'r cadeirio a chanwyd y corn gwlad gan Dafydd Morris-Jones. Cyrchwyd y bardd buddugol i'r llwyfan gan Meinir Davies a Margaret Bush. Cyfansoddwyd penillion i gyfarch y bardd buddugol gan Hedd Bleddyn, bardd cadeiriol llynedd ond am ei fod yn methu bod yn bresennol fe'i cyfarchiwyd gan Aled Evans. Canwyd Cân y Cadeirio gan Barry Powell o Lanfihangel-y-Creuddyn.

Eleni am y tro cyntaf cyflwynwyd tlws er cof am y diweddar Merêd (Dr Meredydd Evans) i'r buddugol yn yr Alaw Werin a'r enillydd oedd Efan Williams o Ledrod.

Canlyniadau
Canu:
Unawd Cyfyngedig Cyfnod Sylfaen: 1af Alaw Davies, Syr John Rhys 2il Ceri Macy, Mynach 3ydd Efa Davies, Mynach.
Cyfyngedig Bl.3-6: 1af Magi Jones, Syr John Rhys 2il Swyn Davies, Syr John Rhys 3ydd Peni Macy, Mynach
Unawd agored Cyfnod Sylfaen: 1af Medi Rowles Lloyd, Llanfechain 2il Alaw Davies, Ponterwyd 3ydd Elsa Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn.
Unawd agored Bl.3 a 4: 1af Lois Davies, Tregaron 2il Meia Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn. 3ydd Malen Davies, Pontarfynach
Unawd agored Bl 5 a 6: 1af Fflur Meredith, Llanbed 2il Ifan Williams, Tregaron, 3ydd Mari Williams, Tregaron
Canu Emyn dan 12 oed: 1af Mari Williams, Tregaron 2il Fflur Meredith, Llanbed
Unawd ar unrhyw offeryn cerdd oed cynradd: 1af Elenor Nicholas, Aberystwyth 2il Malen Davies, Pontarfynach, Sara Jenkins, Pontarfynach, Peni a Lili Macy, Pontarfynach
Unawd dan 16 oed: 1af Lois Wyn, Dolgellau 2il Zara Evans, Tregaron
Unawd dan 21ain: 1af Guto Lewis, Llanon, 2il Lois Wyn, Dolgellau
Unawd ar unrhyw offeryn cerdd – oed uwchradd: 1af Soffia Nicholas, Aberystwyth 2il Steffan Nicholas, Aberystwyth 3ydd Elain Jenkins, Pontarfynach
Canu Emyn dan 60 oed: 1af Guto Lewis, Llanon
Alaw Werin Agored: 1af Efan Williams, Lledrod 2il Carys Mai, Lledrod 3ydd John Glant Griffiths, Lledrod
Canu Emyn dros 60 oed: 1af Hywel Annwyl, Llanbrynmair 2il Elaine Evans, Pontarfynach
Cân Bop/ Cân allan o Sioe Gerdd: 1af Guto Lewis, Llanon 2il Lois Wyn, Dolgellau 3ydd Lyndsey Cameron Jenkins, Tregaron

Unawd Gymraeg: 1af Barry Powell, Llanfihangel-y-Creuddyn 2il Efan Williams, Lledrod 3ydd Guto Lewis, Llanon
Her Unawd: 1af Efan Williams, Lledrod 2il Barry Powell, Llanfihangel-y-Creuddyn 3ydd Crwys Evans, Pont-rhyd-y-groes
Parti Canu: 1af Parti Soar Bach 2il Parti Camddwr 3ydd Merched Bro'r Mwyn
Sgen Ti Dalent dan 16 oed: 1af Soffia, Steffan ac Elenor Nicholas, Aberystwyth, 2il Ifan Williams, Tregaron
Sgen Ti Dalent dros 16 oed: 1af Barry Powell ac Efan Williams
Côr: 1af Parti Camddwr 2il Merched Bro'r Mwyn

Llefaru
Cyfyngedig Cyfnod Sylfaen: 1af Lili Macy, Mynach 2il Efa Davies, Mynach 3ydd Jac Lewis, Mynach
Blwyddyn 3-6 Cyfyngedig: 1af Gwenan Jones, Syr John Rhys 2il Malen Davies, Mynach 3ydd Peni Macy, Mynach
Cyfnod Sylfaen Agored: 1af Elsa Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn 2il Efa Davies, Mynach
Agored Bl 3 a 4: 1af Lois Davies, Tregaron 2il Meia Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn 3ydd Malen Davies, Pontarfynach
Agored Bl 5 a 6: 1af Ifan Williams, Tregaron 2il Mari Williams, Tregaron 3ydd Fflur Meredith, Llanbed
Dan 16 oed: 1af Zara Evans, Tregaron 2il Lois Medi, Llandre 3ydd Elin Williams, Tregaron a Ifan Meredith, Llanbed
Dan 21 oed: 1af Swyn Hughes, Dinas Mawddwy
Dysgwyr : 1af Sandy Neville, Cwmystwyth a Rachel Seabrook, Borth
Adrodd Digri: 1af Mair Jones, Tregaron 2il Ifan Meredith, Llanbed 3ydd Ifan Williams, Tregaron
Darllen darn o'r Ysgrythur: 1af Ifan Meredith, Llanbed 2il Vaughan Evans, Llwynpiod 3ydd Elin Williams, Tregaron a Lowri Fron, Llanon
Darllen i ddysgwyr: 1af Nicholas Shilton, Aberystwyth
Parti Llefaru Agored: 1af Merched y Wawr Mynach a'r Cylch
Her Adroddiad: 1af Enfys Hatcher Davies, Llanddewi Brefi
Ysgrif/Stori: 1af Aled Evans, Trisant 2il Gaenor Mai Jones, Rhondda Cynon Taf 3ydd Trefor Jones, Llanfarian
Brawddeg: 1af Trefor Jones, Llanfarian 2il Mary B Morgan, Llanrhystud 3ydd John Meurig Edwards, Aberhonddu
Limrig: 1af Megan Richards, Aberaeron 2il Alun Jenkins, Pontarfynach 3ydd John Meurig Edwards, Aberhonddu

Cystadlaethau lleol
Arlunio Cyfnod Sylfaen: 1af Lili Macy 2il Clara Davies 3ydd Gwen Hopkins
Arlunio Bl. 3 a 4: 1af Lavinya Rowlands 2il Ceinwen Davies 3ydd Sara Jenkins a Gethin Rose
Arlunio Bl. 5 a 6: 1af Gwenan Jones 2il Swyn Davies 3ydd Peni Macy
Llun Camera: 1af Steve Neville, Cwmystwyth 2il Steve Neville, Cwmystwyth 3ydd David Williams, Cwmystwyth
Llawysgrifen: 1af Jane Hopkins, Pontarfynach 2il Eiry Jones, Pontarfynach 3ydd Elain ac Eirian Jenkins, Pontarfynach
Llawysgrifen Cynradd: 1af Evie Hale 2il Laila Hale 3ydd Eira Rose

Dymuna'r pwyllgor longyfarch yr holl gystadleuwyr a diolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod.